CYMDEITHAS ENWAU LLEOEDD CYMRU
WELSH PLACE-NAME SOCIETY
Cylchlythyr 10 Hydref 2016
Newsletter 10 Autumn 2016

Copa

Dyw'r Foel Gron
Yn ddim ond ploryn
Ar wyneb meddal Llŷn,
Ond o'r copa crwn
Yn y dyddiau gwyrdd
Fe welwn i Yr Aifft,
India a New York.
Tyddynnod bach a'u henwau'n ddim
Ond cofnod teithiau'r Sgweiar balch,
A'i stad yn ymestyn
Fel bysedd dan sgert i odre'r Garn.

Heddiw
Dim ond Merton View,
Green Meadows, a Daisy Dell
Sydd yno.
Diflannodd hanes fel diflannodd iaith,
Ac mae'r gwynt yn oer
Ar gopa'r Foel.

Esmor Bach

Telyneg fuddugol Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Fynwy a'r Cyffiniau 2016 gan John Gruffydd Jones, Abergele
Gyda chaniatâd caredig yr awdur

Aifft

Ymholiad a ddaeth adeg yr Eisteddfod oedd am eglurhad o enw lle, sef *Aifft*. Yr ymholydd oedd Huw Thomas, Prif Weithredwr Cymorth Cristnogol Cymru, sy'n trefnu taith gerdded fis Rhagfyr 2016 o Fethlehem (sir Gaerfyrddin) i'r Aifft (sir Ddinbych). Bwriad y daith yw tynnu sylw at argyfwng ffoaduriaid.

Mae *Aifft* sir Ddinbych yn enw ar ardal ym mhlwyf Aberchwiler rhwng yr Wyddgrug, Dinbych a Llanelwy, heb fod ymhell o Bodfari. Mae'r ardal ar lechweddau deheuol Moel y Parc, a Llwybr Clawdd Offa yn arwain drwyddi. Mae'n agos iawn at y ffin â sir y Fflint, gyda'r afon Chwiler hefyd yn gwahanu'r ddwy sir. Gallwch ei leoli ar fap Arolwg Ordnans cyfeirnod SJ 1169.

Mae'n bosibl i'r enw ddisgyn i ddau gategori o enwau.

Y categori cyntaf yw enwau a gysylltir â theithio neu fyw dramor. Mae rhywun yn meddwl yn syth am *America Street* yn y Gaerwen, Môn, a fathwyd, yn ôl Tomos Roberts, gan y postman lleol ar sail yr holl lythyrau cyson a anfonwyd i'r stryd gan deuluoedd a oedd wedi ymfudo. Ger y Benllech, eto ym Môn, mae tafarn y *California*, a enwyd wedi i'r perchennog ddychwelyd oddi yno. Eraill yn enwau a gysylltir â chapteiniaid llong a morwyr. Mae pawb sy'n teithio'r A470 yn gyfarwydd â thafarn yr *Aleppo Merchant* ym Maldwyn. Ac yn sir y Fflint, ger Llannerch-y-môr, Mostyn, mae *Egypt*. Yn ôl Ellis Davies (*Flintshire Place Names*, 1959) cofnodir yr enw ar fap yr AO 1840. Mae'n egluro mai'r sawl a roddodd yr enw oedd 'an occupying sailor whose ship plied between this country and Egypt'. Mae Ellis Davies yn ychwanegu 'Cf. Aifft, Lleyn'; nid wyf eto wedi darganfod ble oedd ganddo mewn golwg, ac fe fyddwn yn falch o gael cadarnhad o enw felly yn Llŷn sydd â chysylltiadau morwrol mor amlwg. Mae BG Charles (*Place-Names of Pembrokeshire*, 1992) yn nodi dau *Egypt* ym Mhenfro, un yng Nghas-wis (*Egypt* 1761, *Egypt House* 1844) a'r llall yn yr Eglwys Lwyd/Ludchurch (*Egypt* 1741). Yn anffodus, nid yw BG Charles yn cynnig sylw pellach heblaw nodi'r enwau.

Mae categori arall yn cynnig ei hun wrth geisio egluro *Aifft* sir Ddinbych, sef enwau ar diroedd pellennig, llecynnau a welwyd fel pen draw'r byd. Mae gan bob sir enwau ar fythynnod anghysbell neu gaeau sy bell o fferm (a'r rheini bron bob un yn yr iaith Saesneg), enwau fel *Greenland*, *Isle of Man* a'r *Far East* . Llawer o'r enwau yn tynnu ar ymwybyddiaeth o'r byd mawr tu allan i Gymru fel *Abyssinia*, *Siberia*, *Constantinople*, *North Pole* a *South of France*. Enwau ar bonciau yr oedd dipyn mwy o waith cerdded i'w cyrraedd yn chwarel Dinorwig oedd *Aberdaron*, *New York*, *Awstralia* ac *Egypt*. Ond niferus hefyd yw'r enwau Beiblaidd. Ar batrwm enwau capeli megis *Bethesda*, *Horeb* ac wrth gwrs *Bethlehem*, cyfeiriwyd at lecynnau a oedd ymhell o bobman gan dynnu ar y stôr o enwau yr oedd capelwyr selog yn eu clywed o Sul i Sul, enwau y gwyddent i sicrwydd oedd yn golygu teithiau hir. Enwau fel *Babylon*, *Jericho*, *Samaria*, a'r *Aifft*.

Rwy'n credu mai i'r ail gategori y daw *Aifft* sir Ddinbych, *Aifft* diwedd taith pererinion Cymorth Cristnogol. Mae sawl rheswm am gredu hynny. Fe'i cofnodir gyntaf ar fap AO 1838 fel *Reifft*. Sylwch ar ffurf sy'n awgrymu ffurf lafar Gymraeg, ffurf trigolion lleol ar lafar gwlad (yn wahanol i ffurfioldeb Saesneg *Egypt*). Mae'n werth nodi bod *Aifft* sir Ddinbych chwe milltir a hanner (fel hed y frân) o'r môr yn Mostyn, felly go brin (ond ddim yn amhosibl) bod cysylltiad morwrol. Yn hytrach, mae'r lleoliad yma ar lethrau Moel y Parc yn gweddu i'r syniad o dir ymhell o bobman, y mae gofyn ymdrech a phenderfyniad i'w gyrraedd. Cyrchfan addas iawn a symbolaidd i ddiwedd taith Cymorth Cristnogol.

[Gol.: Roedd *(Yr) Aifft / Raifft* yn enw tŷ ym mhlwyf Henfynyw, Ceredigion. Mae dwy enghraifft o leiaf o'r enw yn Llŷn: un yn ardal Penllech, Tudweiliog, a'r llall ym Mynytho. Gweler bellach y gerdd ar d 1]

Aifft 'Egypt' (SJ 1169) was probably so named because of its remoteness.

Hywel Wyn Owen

Cofnodion

Mae Cofnodion Cyfarfodydd y Pwyllgor ar gael i aelodau ar ffurf electronig drwy gysylltu ag angharad.fychan@googlemail.com

Minutes

Minutes of the Committee Meetings are available electronically for members by contacting angharad.fychan@googlemail.com

Ceisio casglu enwau Aberdaron yn y gwynt a'r glaw!

Cynhaliwyd gweithdy undydd yn Ysgol Crud y Werin, Aberdaron ddydd Sadwrn, 3 Medi. Gwahoddwyd pobl leol i ddod ag enwau caeau ac unrhyw fân enwau lleol i'w cofnodi ar fap digidol cenedlaethol gan Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. Y bwriad yw eu gwarchod a'u cadw i'r dyfodol ar ffurf cronfa ddata genedlaethol a map digidol o Gymru gyfan.

Er gwaetha'r tywydd erchyll, daeth nifer dda i gofnodi enwau ac i fwynhau sgwrs. Diolch i bawb a gyfrannodd a gwneud y diwrnod mor werthfawr, yn hanesion ac yn enwau. Gan nad oes enwau caeau wedi eu cofnodi yn Negwm 1840 ym mhlwyf Aberdaron, mae'r enwau sydd ar gof gwlad yn hynod o werthfawr. Llwyddwyd i ychwanegu nifer fawr o hen enwau i'n map ond mae rhai bylchau i'w llenwi eto. Mae rhai a ddaeth i'r gweithdy wedi cynnig ymweld â ffermydd lleol i'w casglu, os yn bosibl, a bydd Elfed Gruffydd yn eu trosglwyddo i'r map digidol.

Llawer o ddiolch i Llinos Vaughan Jones a'r Cyngor am gael dod i'r ysgol, i Judith Hedges am rannu posteri a hybu'r digwyddiad ac i bawb a'n cefnogodd. Gobeithiwn fedru rhannu'r wybodaeth a gasglwyd yn y dyfodol gyda phobl yr ardal.

Rhian Parry

Towyn or Tywyn?

Last May the National Library of Wales published a fascinating clip in Welsh on YouTube from the ITV archive (https://m.youtube.com/watch?feature=share&v=MaF0O-0jOTQ), commenting: 'To this day the question remains unanswered; Is it Towyn or Tywyn?'. On 25 May 1968 a referendum was to be held in Tywyn (Meirionnydd) on the question whether the official spelling should revert to *Towyn.* In the clip we see Gwilym Owen interviewing members of the public about this. The vast majority of them favoured the spelling *Towyn.* It was interesting to see that one of those interviewed pointed out that this was a historically correct spelling, going back to the fifteenth century, comparing the spelling of the personal name *Howel(l)*, side by side with *Hywel.*

The Enwau Cymru website (http://www.e-gymraeg.org/enwaucymru/) lists *Tywyn* as the Welsh spelling of the name of the town in Meirionnydd, but *Towyn* for that of the settlement near Abergele. *The Dictionary of the Place-Names of Wales* uses *Tywyn* for the former, and *Towyn, Tywyn* for the latter, commenting 'The spelling variation between Tywyn and Towyn continues to be contentious but usage tends to favour Towyn.' Melville Richards's article on Tywyn (Meirionnydd) in *The Names of Towns and Cities in Britain* (ed WFH Nicolaisen, 1970) mentions 'Tywyn Abergele' and 'Tywyn near Cardigan' and writes 'the word *tywyn* is related to *tywod* "sand", and should be so spelt according to the rules of Welsh orthography.'

It is somewhat surprising that the authoritative *Gazetteer of Welsh Place-Names* (3rd ed, 1967) lists the Meirionnydd name as *Towyn (Tywyn)* but the other two as *Tywyn.*

Darganfod enwau caeau yng Nglynebwy

Go brin y byddwch yn meddwl am gaeau ac enwau caeau yn yr un gwynt â Glynebwy. Ac eto, ar un adeg, roedd yn ddyffryn gwyrdd ac iddo ffriddoedd gwerthfawr ar y llethrau a dolydd bras ar lannau Ebwy Fawr. Roedd hefyd, hyd at yr ail ganrif ar bymtheg, ambell fferm ac iddi dir âr ardderchog, fel Bôn-y-dderwen a Chwrt-y-gollen. Ceir darlun byw o bron hanner cant o ffermydd a thyddynnod mewn dogfen faenor yn 1676. Ceir enwau'r tenantiaid a'r cyn tenantiaid megis Edmwnd Lewis John yn Nhŷ Thomas Llewelyn a William Phylip a'i wraig Gwenllïan yn Nhŷ Evan ap Llywarch. A dyna John Harry Howell ym Mhen-y-cae, sef yr enw cyntaf ar y man lle cychwynnodd y gwaith haearn. Mae Pen-y-cae yn enw sy'n dal i lechu yng nghof yr ardal, yn hen enw ar Lynebwy. Cofnodir hefyd enwau ffermydd Bwlch y Garn, Tŷ Gnappwg, Gwaun y Cuffulla, Bwlch y Garn Ysha, Pant-y-pwdin, Dyffryn Uchaf, Llanaurch y Werne a Thŷ Blaen Merddach, enwau hollol Gymraeg, er eu llygru gan gofnodwr di-Gymraeg.

Yn sgil dyfodiad y meistri haearn yn y ddeunawfed ganrif, llygrwyd rhai enwau ymhellach a chwalwyd y ffermydd ar lawr y dyffryn. Cloddiwyd am lo a haearn a dyna gychwyn hanes diwydiannol y cwm. Prynwyd dwsin a mwy o ffermydd gan gwmni Harford, Crynwyr a neilltuodd rai o'r ffermydd i godi cnydau a bwyd i'w gweithwyr. Roedd ambell fferm yn haws i'w phrynu na'i gilydd yn ôl y sôn. Mae hanes lleol fod Harford wedi pwyso'n drwm ar Edmwnd Lewis, fferm Drysio Uchaf i werthu dôl o'r enw 'Coed Cae Du' ger y gwaith haearn. Cynigwyd talu gyda hanner coronau a'r rheini'n gorchuddio wyneb y ddôl ond cafwyd yr ateb na fyddai'n gwerthu hyd yn oed pe gosodid y darnau arian ar eu pennau!



Map Harford 1816 o fferm Dyffryn Uchaf

.

Pan werthwyd y tiroedd i'r diwydianwyr, cofnodwyd enwau'r ffermydd a'r caeau mewn dogfennau ar groen llo a lluniwyd mapiau hardd. Daethant, ynghyd â dogfennau hŷn i ddwylo'r meistri haearn ac yna fe'u trosglwyddwyd i'r diwydianwyr diweddarach. Buont mewn cistiau ac ar silffoedd swyddfeydd y gwaith am flynyddoedd, heb dynnu sylw. Yn ystod y chwalu mawr a ddaeth i ran y gweithfeydd ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif, achubwyd y dogfennau hyn gan un o'r gweithwyr dur. Gwelodd eu gwerth ac fe blediodd am ystafell i'w gwarchod. Achubwyd llawer o drysorau rhag y sgip, fel y map o Ddyffryn Uchaf, a thros y blynyddoedd tyfodd y casgliad gwerthfawr hwn. Ymwelais ddeng mlynedd yn ôl bellach a chyfarfod y criw bach diwyd o wirfoddolwyr a gatalogiodd bellach bron y cyfan o'r dogfennau ac sydd yn dal ati. Maent i'w cael heddiw yn hen swyddfeydd y Gwaith sydd dan adain Archifau Gwent. Dyma waddol wirioneddol wych i'r ardal ac i Gymru.



UPPER DUFFRY, &c.

No	Names of Fields &c.	Quality	A. R. P
	Ty Du.		
1	Cae du Uchaf	Pasture	3. 0. 13
2	Caeclaffrwn	Pasture	2. 1. 10
3	Cae du Cenol	Pasture	1. 3. 20
4	Cae du Isaf	Arable	2. 2. 8
5	Waun fach	Rough Pasture	6. 3. 6
6	Coedgae Ty du	" "	9. 2. 22
	Tyr Howelb Goch.		
7	Coedgae Howel Goch Uchaf	Pasture	3. 3. 9
8	Coedgae Howell goch Isaf	"	2. 1. 9
9	Waun Howell goch	Rough Pasture	3. 3. 9
	Tyr Bilwg.		
10	Coedgae Bilwg and Waun y Bilwg	" "	12. 2. 5
11	Gweirglodd Cenol and Bacon	Pasture	3. 0. 2
12	Gweirglodd Isaf	"	1. 1. 12
	Upper Duffryn.		
13	Coedgae Bach	Rough Pasture	5. 3. 33
14	Mense. Gardens &c		0. 2. 32
15	Cae Hant	Pasture	2. 3. 13
16	Gweirglodd dan y Ty	Arable Pasture	1. 0. 9
17	Cae Pen y Forest	Arable	1. 2. 34
18	Cae Bach Pen y Forest	Pasture	0. 3. 34
			71. 0. 2

Abstract.	a. r. p
Ty Du	26. 0. 1
Tyr Howelb Goch	11. 3. 27
Tyr Bilwg	16. 3. 19
Upper Duffryn	16. 0. 35
Total	71. 0. 2

Enwau caeau fferm Dyffryn Uchaf o'r un casgliad.

Goroesodd ffermydd hynafol Tir (Tŷ) Meddyg a Thŷ Sïon Harri, (tafarn y Morning Star yn ddiweddarach) ar hen ffordd y porthmyn. Mae'r bar yno o hyd yn ystafell fyw'r deiliaid presennol ac fe'i gwelais ar ddechrau'r haf eleni. Adferwyd y tir yno ac mae newydd ennill gwobr gadwraethol. Hefyd i'w gweld mae Troedrhiw-glawdd ac eraill.

Gwirfoddolwyr yn yr hen archifdy ar y stad ddiwydiannol.

Adroddwyd peth o'r hanes hwn yn ein panel yn y Lle Hanes, yn Eisteddfod y Fenni. Diolch i'r gwirfoddolwyr yn Ymddiriedolaeth Archifau Glynebwy ac i'r Archifau am eu cydweithrediad parod i baratoi'r lluniau ac am ganiatâd i'w dangos. Gobeithiwn greu panel ein hunain ar gyfer aelodau a'r cyhoedd.

Field-names in Ebbw Vale preserved in documents rescued from destruction at the end of the 20c.

Rhian Parry

Cynhadledd 2016

Ar gyfer ein chweched gynhadledd undydd fe awn i sir Ddinbych, i gampws Coleg Cambria yn Llysfasi ger Rhuthun ar 1 Hydref. David Thorne, Cadeirydd y Gymdeithas, a fydd yn estyn croeso i'r gynhadledd, ac fe agorir y gynhadledd gan Linda Thomas, Prif Weithredwr a Llyfrgellydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Cadeirydd sesiwn y bore fydd Dylan Foster Evans, Caerdydd. Hywel Wyn Owen a fydd yn cyflwyno'r papur cyntaf, a hynny ar rai o enwau lleoedd sir y Fflint, rhagflas o'i lyfr ef a'r diweddar Ken Lloyd Gruffydd i'w gyhoeddi yn 2017. Fe'i dilynir gan Kevin Matthias, cyn-archifydd sir Ddinbych, ar archifau Stad Rhuthun fel ffynhonnell ymchwil enwau lleoedd. Traddodir papur olaf y bore gan David Thorne ar enwau lleoedd sydd â chysylltiadau meddygol. Cadeirydd sesiwn y prynhawn fydd Eirlys Gruffydd, yr Wyddgrug. Bydd Ann Parry Owen yn trafod defnyddio barddoniaeth yr Oesoedd Canol fel ffynhonnell ar gyfer enwau lleoedd – bydd y papur yn cael ei gyflwyno gan Andrew Hawke, a fydd hefyd yn dweud ychydig am ddefnydd Geiriadur Prifysgol Cymru o enwau lleoedd. Yna, papur ar enwau lleoedd yn Iwerddon gan Aengus Finnegan. Fel y gwyddoch, un o amcanion y Gymdeithas yw codi ymwybyddiaeth o enwau lleoedd yn y gwledydd Celtaidd eraill a Lloegr. Yn y blynyddoedd a fu cafwyd papurau ar enwau lleoedd Cernyw a'r Alban a swydd Amwythig. Yn dilyn, cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas. Traddodir y papurau ar Stad Rhuthun ac ar enwau Iwerddon drwy gyfrwng y Saesneg, ac fe fydd cyfieithu ar y pryd gan Rhys Huws i weddill y gynhadledd. Edrychwn ymlaen at gynhadledd Iwyddiannus arall, ac at eich gweld yno.

Cernyw

Ymddengys yr elfen *Cernyw* mewn nifer o ffyrdd ym mhob un o'r gwledydd Brythonig, ac, yn wir, mae wedi rhoi ei henw i wlad, iaith a thrigolion y lleiaf o'r tair gwlad hyn, sef *Kernow* 'Cernyw'. Ceir enghraifft arall yn enw *Porthcurno* (SW 389222) 'Porth Cernyw', er bod Adrian Room yn awgrymu yn *The Penguin Dictionary of Place Names* mai 'Porth y Cyrn' yw tarddiad hwn, yn cyfeirio at ddau benrhyn, sef Pedn-mên-an-mere a chraig Logan, ar y naill ochr a'r llall i'r bae. Yn wahanol i'r Gymraeg, mae *Gerlyver Noweth Kernewek* yn rhestru 'kern' a 'kernow' fel ffurfiau lluosog y gair 'korn'. Byddai ffurf luosog felly yn ein harwain ni yn ôl at y llwyth Celtaidd, y Cornovii, a oedd yn byw yma amser y Rhufeiniad.

Wrth i'r Brythoniaid fudo o Ddyfnaint a Chernyw i benrhyn gogledd-orllewinol Gâl, Llydaw bellach, bedyddiwyd dwy ran o'r wladfa newydd yn ôl y taleithiau hynny yn y famwlad, sef *Domnonée* '*Dumnonia*, Dyfnaint', yng nghanol arfordir y gogledd, a *Kerne*, 'Cernyw', yn y De-orllewin. Yn Ffrangeg, *Cornouaille* yw'r ardal yn Llydaw, ond *Cornouailles,* lluosog, ym Mhrydain.

Yn tarddu o enw'r dalaith hon y mae enw tref enwog a phrydferth Konkerne/Concarneau, prif borthladd pysgota Llydaw. (Mae *konk* arall yn Llydaw, gyda llaw, sef Konkleon/Le Conquet yn eithafon gorllewin Llydaw). Yn y ddwy enghraifft hon, mae *konk* yn golygu 'penrhyn', sef Penrhyn Cernyw – Konk Kerne - a Phenrhyn Leon – Konk Leon. (Leon yw enw ardal gogledd-orllewinol Llydaw yn cynnwys Kastellpol/St Pol de Léon, Roskoff a Brest.) Ceir yr un elfen hefyd yn enw Plougerne/Plouguerneau ar arfordir y Gogledd nid nepell o ddinas Brest yn rhanbarth Leon. Gan fod Llydawyr yn gwahaniaethu'n glir rhwng Kerne/Cornouaille a Leon, mae'n bosib bod yr enw yma'n cyfeirio at sefyllfa'r pentref, ar gornel gogledd-orllewinol y wlad. Mae'r un elfen hefyd yn bresennol mewn enw pentref ger Pont 'n Abad/Pont-l'Abbé, sef Rozkerno/Rosquerno (roz = llethr). Diddorol yw sylwi bod yr ardal honno hefyd mewn 'cornel' o'r wlad, y tro hwn ym mhegwn de-orllewinol Llydaw.

Mae'r enghreifftiau o enwau tebyg yng Nghymru'n wasgaredig ar draws y wlad a thros Glawdd Offa yn sir Henffordd.

Ar Ynys Môn y mae Llanfair-yng-Nghornwy (SH 327909), yn agos i 'gornel' yr ynys, Trwyn y Gader (neu Carmel Head yn Saesneg). Er bod y sefyllfa'n awgrymu 'corn' fel tarddiad yr enw, mae'r *Dictionary of the Place-names of Wales* (*DPNW*) yn cyfeirio at ffurfiau cynharach hyd at yr 16 ganrif sydd yn awgrymu enw llwyth yn hytrach na 'chorn'.

Mae Llangernyw yn sir Ddinbych (SH 876675) yn ymyl troad mawr yn Afon Elwy. Gan mai Digain yw nawddsant y plwyf, rhaid chwilio am esboniad arall o'r enw. Honna T R Breverton yn ei lyfr *The Book of Welsh Saints* bod Digain a'i frawd Erbyn (cyn-nawddsant Llanerbyn/Erbistock ar lannau Dyfrdwy yn sir y Fflint (SJ 355415), a ddisodlwyd yn ddiweddarach gan Ilar, neu Hilari) yn feibion i Frenin Cernyw, Cystennin Gorneu. Ond ai dyma enghraifft arall o 'gornel o dir wrth ystum afon'? Mae'n debyg taw ar ôl yr un sant yr enwyd Llangernyw, pentref neu eglwys ddiflanedig ryw dair milltir o'r ffin (SO 388304) yn Ergyng, sef y rhan o swydd Henffordd a ystyrid yn rhan o Gymru tan y Deddfau Uno.

Yn achos Llanfihangel Rhos-y-Corn (SN 5035), yn ucheldiroedd canol sir Gaerfyrddin, er bod *DPNW* yn eithaf bodlon bod yr enw yn cyfeirio at safle'r eglwys ar rostir gyda chorn, neu garn o ryw fath, maent hefyd yn cyfeirio at gofnodion o'r enw cyn yr 17 ganrif sy'n cynnwys yr elfen Cornwy neu Cornyw, a fyddai felly yn caniatáu inni gymryd y plwyf hwn i blith rhengoedd yr enwau lleoedd sydd yn ymgorffori elfen Cernyw a ffurfiau tebyg.

Yn eithafion De-ddwyrain Cymru mae Coedcernyw (ST 277834), ar ymylon y gwastatir ar lannau Hafren rhwng Caerdydd a Chasnewydd. Er bod y lle ryw ddwy filltir o'r môr erbyn hyn, adenillwyd y parthau hyn o'r heli yn y Canol Oesoedd, a dengys yr enwau lleoedd Saesneg ar y llefydd rhwng yr A48 a'r môr mai ardal 'newydd' yw hon, yn wahanol i'r fro draddodiadol sydd yn frith o enwau megis Maerun a Chefn Llogell.

Lle arall yng gogledd Gwent yw Llanfihangel Crucornau (SO 325208), nid nepell o dref y Fenni, sy'n edrych dros droad mawr yn Afon Honddu. Ceir gwahanol esboniadau am yr enw, nifer ohonynt yn dilyn trywydd yn ôl i lwyth Celtaidd o amser y Rhufeiniaid, sef y Cornovii, preswylwyr swydd Amwythig a'r cyffiniau. Nodir presenoldeb llwyth o'r un enw yn eithafion gogledd-ddwyrain yr Alban, yn ardal Caithness ein hoes ni, a cheir yr un enw, wrth gwrs, ar gyfer trigolion Cernyw. Esbonnir hyn fel disgrifiad o bobl yn byw ar gornel arfordirol o dir, sydd yn wir am begynau de-orllewinol a gogledd-ddwyreiniol Ynys Prydain, ond anodd yw cysoni hyn gyda swydd Amwythig, ymhell o'r môr. Ond mae Amwythig ar ddarn o dir sydd yn ymwthio i Afon Hafren, felly hefyd yn 'gornel' o dir gyda dŵr ar dair ochr.

Mae pob un o'r lleoedd yng Nghymru, sef Llanfair-yng-Nghornwy, Llangernyw, Llanfihangel Rhos-y-Corn, Coedcernyw, Llanfihangel Crucornau, yn llecynnau sydd mewn corneli bychain o'r wlad, nid o reidrwydd yn orynysoedd neu ar lan y môr. Mae'n rhesymol derbyn bod y bobl oedd yn byw yng nghorneli'r wlad wedi cymryd ei henw o'u lleoliad, a byddai hynny'n esbonio Cernyw, a thrawsblaniad yr enw i Lydaw ar ffurf Kerne. Am y pentrefi yng Nghymru, mae 'cornel' yn disgrifio lleoliad llawer ohonynt, boed yn llecyn ar gornel y wlad, neu mewn mannau lle mae afon yn troi mewn cylch mawr.

Brynach Parri

Linguistic Colonisation

English

Yr Hen Farcdy, Talsarnau

Cornish!

Tŷ Cernyw, Rhiw, Aberdaron

Carreg Cefn y Braich, Llansilin

Darganfuwyd y garreg tua'r flwyddyn 1926 mewn cae ar fferm Cefn y Braich, Llansilin. Roedd y garreg yn gorwedd 45cm o dan y ddaear, ac fe ddaeth gweithwyr ar ei thraws wrth dyllu ffos i osod pibelli i gario dŵr i'r tŷ.

Mae'r garreg yn siâp côn o dywodfaen gwyn ac yn 26cm o uchder, gyda'r gwaelod yn 16cm ar draws. Mae twll ar y top sy'n 8cm o led ac yn 4cm o ddyfnder. Does neb yn siŵr iawn beth yw'r garreg ond fe all fod yn wrthrych i oleuo adeilad drwy roi saim gyda wic yn y twll.

Enw'r cae lle darganfuwyd y garreg yw Erw Lys ac enw trefgordd y fferm yw Llys Dynwallon. Oedd y garreg yn perthyn i ryw lys neu gilydd tybed?

Carys Evans gyda'r Garreg

A stone found about 1926 in a field called Erw Lys at Cefn y Braich, Llys Dynwallon, Llansilin, perhaps a relic of a court (llys).

Rhian Parry

Cwmwd tan Gwmwl

Daeth cyfle yn ddiweddar i ddechrau ystyried un o enwau plwyf Myddfai, Sir Gaerfyrddin sef Trichwmwl (SN803308). Ceir trafodaeth fer ar yr enw yng nghyfrol ddiddorol David B James *Myddfai: Its Land and Peoples* (1991) 230. Nodir yno mai 'Trichwmwl', yn amlach na heb, yw'r enw a geir yn nogfennau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dyma'r unig ffurf sydd wedi ei chofnodi yn y gronfa ddata o enwau lleoedd y sir a luniwyd gan Hynafiaethwyr Sir Gaerfyrddin ac yn Archif Enwau Lleoedd yr Athro Melville Richards.

Tri chwmmwd, sut bynnag, a geir yn Asesiad Treth y Tir ym Myddfai 1797 (James 1991:236).
'Tricwmwd' yw enw'r fferm yn rhestrau'r degwm (1839); a cheir yr un enw ar gae cyfagos (Rhif 1950, t 25) sy'n rhan o'r fferm.

Yng Nghofnodion y Taliadau i'r Tlodion (1830) ceir 'Trichwmwl' (James 1991:247).

Dyma'r ffurfiau ar yr enw a gofnodir yn nogfennau'r cyfrifiad ar gyfer plwyf Myddfai rhwng 1841 a 1911:

Enw	Blwyddyn Cyfrifiad	Ardal	Tudalen
Trychwmwood	1841	3	5
Tricwymwd	1851	4	9
Tricwmood	1861	3	11
Trecwmwl	1871	3	16
Trecwmwl	1881	11	16
Trichwmwl	1891	11	15
Tir Cwmwl Farm	1901	9	5
Trichwmwl	1911	9	31



Dyma'r ffurfiau a gofnodir yng nghofrestri eglwys y plwyf:

Trichwmmwd 1816 (Cofrestri Claddedigaethau Eglwys Myddfai t 9; Rhif 76).
Trichwmmwd 1817 (Cofrestri Claddedigaethau Eglwys Myddfai t 11; Rhif 87).
Trichwmmwd 1823 (Cofrestri Claddedigaethau Eglwys Myddfai t 29; Rhif 232).
Trichwmwood 1840 (Cofrestri Priodasau Eglwys Myddfai t 10; Rhif 19).
Trichwmmwd 1863 (Cofrestri Claddedigaethau Eglwys Myddfai t 25; Rhif 188).

Diolchaf i Richard Morgan am y cyfeiriadau ychwanegol isod:
Tri-chwmwd 1744 Cofiadur 41, t 22; a *Tyrtree Cwmod* 1768 NLW DTM Jones 4.2898-9.

Diolch i Handel Jones, yn ogystal, am y cyfeiriadau hyn:
Tircwmwl – *The Welshman, 15.2.1878*

Trecwmwl – *Carmarthen Journal, 12.5.1893; 15.2.1901*
Trichwmwl – *Brecon & Radnor Express*, 9.8.1917; *Brecon County Times*, 23.5.1918

Yn ôl pwys y dystiolaeth, ymddengys mai 'Trichwmwd' oedd yr enw gwreiddiol.

Noda James (1991:230) nad oes ffiniau cymydol yn cwrdd yn y rhan hon o Gwmwd Perfedd. Mae'n hollol gywir.

Mae'r union safle, sut bynnag, 260 m uwchlaw'r môr a phen y llechwedd 400 m uwchlaw'r môr; mae tri chwmwd Cantref Bychan sef Hirfryn, Perfedd ac Iscennen a rhagor o fewn golwg llygad.



Mae *Geiriadur Prifysgol Cymru* yn y drafodaeth ar **cwmwd** yn cynnwys y nodyn hwn gan Thomas Richards (1753): *Antiquae Linguae Britannicae Thesaurus ... Welsh English Dictionary*:
cwmmwd, a certain portion or part of a county less than a Cantref or hundred. It is a word well known in North-Wales, and that part of Caermarthenshire which lieth on the south side of the river Towy, extending from the sea as far as to the town of Llandeilo fawr, for twelve miles or more, is called Tri Chwmmwd.

This note charts the change of a farm name in the parish of Myddfai, Carmarthenshire : *Trichwmwd* > *Trichwmwl.*

David Thorne

Golygyddol

Ym mhob pen mae piniwn. Beth yw'r piniwn yn eich pen CHI? Dywedwch wrthym yn enwaulleoedd@gmail.com.

Nid yw unrhyw farn a fynegir yn y cylchlythyr hwn o anghenraid yn fynegiant o farn y Gymdeithas na'r Golygydd.

Editorial

What's your take on place-names?. Let us know at enwaulleoedd@gmail.com.

Opinions expressed in this newsletter are not necessarily those of the Society or of the Editor.

Cysodi / Typeset by: Ifor Williams Golygydd / Editor: Gareth A Bevan

Cystadleuaeth

Llongyfarchiadau i 'Ddyfrin', sef Dafydd Whiteside Thomas, Llanrug, ar ennill y wobr am draethawd 'yn cofnodi enwau lleoedd cysylltiedig ag afon neu ran o afon, gan nodi eu lleoliad (gyda chyfeirnod grid), ffynhonnell yr wybodaeth, a thrafod eu hystyron neu eu harwyddocâd'. Dywedodd y beirniad, Mary Wiliam,

> Enwau Afon Saint ... a gofnodir yma, ac fe wneir hynny yn rhyfeddol o drylwyr: anodd dychmygu na chollwyd nac afon, nant, pwll, llyn na phont ar hyd taith yr afon i'r Fenai. Mae Dyfrin hyd yn oed yn dyfalu lleoliad rhai enwau sydd bellach wedi colli eu cysylltiad â'r afon. Gwelodd amcan y gystadleuaeth i'r dim: 'Mae cofnodion ysgrifenedig ar gael yn enwi rhai o'r nodweddion sy'n gysylltiedig a'r afon, ond enwau llafar yn unig yw llawer, a heb ymdrech i'w cofnodi ânt hwythau hefyd, mewn amser, i ddifancoll.' Cyflwynwyd yr astudiaeth ... ar ffurf hollol barod i fynd i'r wasg, wedi ei gosod yn ddestlus gyda lluniau pwrpasol ochr yn ochr â'r testun. Gwnaed defnydd helaeth o ffynonellau a cheir mynegeion llawn.

Mae clod yn ddyledus i'r Gymdeithas hefyd am noddi'r gystadleuaeth, a ddenodd saith i gystadlu, a'r beirniad yn canmol dau draethawd arall, y naill am 'Yr elfen dwrgi/ dyfrgi mewn enwau lleoedd yng Nghymru a'r Gororau' a'r llall am 'Afon Rhyd Eilian, Ynys Môn', gan bwyso ar eu hawduron 'i gyhoeddi eu gwaith ar unwaith mewn cylchgronau academaidd addas'.

Cystadleuaeth lwyddiannus yn wir. Edrychwn ymlaen at weld cyhoeddi'r tri thraethawd.

Y Babell Lên

Bu Angharad Fychan yn sgwrsio gyda Catrin Beard am waith y Gymdeithas a phwysigrwydd diogelu enwau lleoedd Cymru. Roedd criw da yn y gynulleidfa, a'r ymateb yn dda ar y diwedd. Fel y gellid disgwyl, roedd yr holi a'r atebion yn ddeallus iawn. Fel enghraifft o'r hyn y gellir ei ddysgu o enwau lleoedd, soniodd Angharad am y gair acer. Mae Ysgol Uwchradd Fflint, lleoliad Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni, yn sefyll ar gyn-safle fferm Bryn-coch, a cheir cofnod llawn o enwau caeau'r fferm yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn rhestri'r Mapiau Degwm. Fel arfer, ystyrir acer fel mesur tir cyfystyr ag erw neu cyfair, ond ymddengys nad yw hynny'n wir yn achos caeau Bryn-coch.

Ochr yn ochr â'r enwau'n cynnwys acer, cofnodir hefyd yr enw Deg Cyfair, ffaith sydd ynddi ei hun yn awgrymu bod gwahaniaeth yn yr ystyr. Gan fod cofnodion y Degwm yn nodi union faint y caeau, gellir profi hyn yn ddiamheuol. Mae cae Pum Accar yn mesur chwe acer, tri rhwd, a thri pherc, ond Deg Cyfair yn chwe acer, un rhwd, a dau berc. Dyna brofi felly bod trigolion y Fflint, ar un adeg beth bynnag, yn ystyried bod acer yn cyfateb yn fras i ddau gyfair.

Y Lle Hanes



Fel y llynedd bu gan y Gymdeithas bresenoldeb yn y Lle Hanes, ynghyd ag Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cadw, Casgliad y Werin Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a nifer o gymdeithasau hanes lleol. Yn y stondin yr oedd casgliad o baneli yn ffurfio arddangosfa am hanes sir Fynwy, a Rhian Parry wedi paratoi un ar ein cyfer yn sôn am ddarganfod enwau ffermydd a chaeau coll yng Nglynebwy. Ceir erthygl ar wahân ganddi am hyn.

Roedd copïau o gyfrol Eluned Mai Porter, *Darlun Ddoe,* ar werth yn y Lle Hanes. Diolch o galon iddi am ei rhodd hael i'r Gymdeithas.

Drwy'r wythnos cynhaliwyd cyfres o 'fflachamgueddfeydd' ac arddangosiadau. Ceir llun o un o'r rhain ar y tudalen nesaf:

Gwelir Dylan Jones, Sain Ffagan a Mark Morgan, un o'r pysgotwyr olaf yn Afon Hafren.

Mae'n dangos sut i wau rhwyd laf. Mae Dylan yn cofnodi enwau pyllau pysgota'r Hafren ar ein map digidol, gyda chymorth Mark a'i gyfeillion. Diolch i Dylan am y nodyn canlynol a'r llun o'r pysgotwyr wrth ei gwaith:

Dull traddodiadol o bysgota yw'r dull rhwyd laf sydd wedi ei ddefnyddio ers cannoedd os nad miloedd o flynyddoedd. Pysgotwyr rhwyd laf y Garreg Ddu yw'r rhai olaf o'u math yng Nghymru. Mae'r traddodiad wedi ei drosglwyddo dros y cenedlaethau a daw'r rhan fwyaf o'r pysgotwyr o bentrefi Sudbrook a Phorth Sgiwed yn sir Fynwy.

Nid busnes masnachol yw'r bysgodfa ac mae'r pysgotwyr yn gwneud eu gorau glas i hybu eu crefft fel treftadaeth ac atyniad i dwristiaid. Eu bwriad yw cadw hanes a thraddodiad pysgota laf yn fyw i genedlaethau'r dyfodol. Gellir gwylio'r pysgota yn ddiogel o safle picnic y Garreg Ddu ger pentref Porth Sgiwed. Ewch draw i'w gwylio!

Gwyn Thomas

Roedd Gwyn yn un o aelodau cyntaf y Gymdeithas hon. Doedd hynny ddim yn syndod, gan fod geiriau yn golygu cymaint iddo, a'u gallu i bortreadu enaid lle ac i gofnodi arwyddocâd lleoliad. Dyna union amcanion y Gymdeithas, sef cofnodi, dadansoddi a dehongli, ond bod y wedd lenyddol yn golygu cymaint i Gwyn hefyd. Dyma, yn ei eiriau ef, 'hen hud ein hiaith'. Daw'r geiriau cofiadwy hynny fel teitl ei ragymadrodd i'w lyfr campus ef a'r ffotograffydd Geraint Thomas, *Gair yn ei Le* (Y Lolfa 2012). Pwysleisiodd bwysigrwydd llenyddiaeth yn cadw enwau a geiriau a thraddodiadau yn fyw. Ei natur ef oedd mynd dan groen gair.

Roedd yn gefnogol iawn i Ganolfan Ymchwil Enwau Lleoedd ym Mangor ac i'r prosiect i ddigido archif enwau lleoedd Melville Richards a'i gosod ar lein (http://www.e-gymraeg.co.uk/enwaulleoedd/amr/). Fel Athro'r Gymraeg yno, roedd yn nilyniant ysgolheigion iaith ac enwau lleoedd, John Morris-Jones, Ifor Williams, Melville Richards, Bedwyr Lewis Jones a Tomos Roberts, gwŷr mawr y geiriau, ond fel Bedwyr, roedd Gwyn yn dod â deimensiwn ychwanegol i faes enwau lleoedd, megis swyn y traddodiadau llafar a hud tafodiaith. Poenai am 'eiriau sy'n colli eu hystyr a'u teimlad, am iaith sy'n colli ei bywyd'. Fe wnaeth Gwyn Thomas lawer i adfer hynny.

Hywel Wyn Owen

Llythyr

Annwyl Olygydd,

Wrth ddarllen yr erthygl ddiddorol *Cockles, Mussels and Oysters* yn y rhifyn diwethaf sylwais yn arbennig ar y drafodaeth ar yr enw Bryn y Misgl/ Bryn y Mishgil a'i gyfieithu fel 'hill characterised by mussels'. Cefais fy nghodi yng Nghwm-gors, nid rhy bell o ardal Sgeti dros y mynyddoedd, a'n gair ni am 'eggshell' oedd 'mashgal', h.y. masgl. Mae hwn yn debyg iawn i 'mishgil' Sgeti ond 'cragen' oedd ein gair am 'shell' gyffredin.

Yn gywir,

Marian Davies

[Gol.: Mae *Geiriadur Prifysgol Cymru*'n trafod y gair *misgil* fel gair benthyg o'r Saesneg *muskil*, amrywiad ar *mussel*, ond nid oes gan y Geiriadur darddiad i'w gynnig ar gyfer y gair *masgl.* Tybed faint o gylchrediad sydd i'r gair *misgil?]*

Tiger Bay

If there is one name which is guaranteed to irritate a native of Cardiff then it must surely be Tiger Bay. The name was generally applied to streets on the north side of Loudoun Square, sometimes to a larger area covering the whole of Butetown. The last was named from the marquesses of Bute and was informally known as the Docks. The present name Cardiff Bay/Bae Caerdydd is a misnomer since the 'bay' is now a freshwater lagoon behind the barrage connecting Cardiff to Penarth.

Tiger Bay has never achieved official status and to many people in Cardiff is best kept that way – along with 'Chip Alley' (Caroline Street) and the 'Magic Roundabout'. The name has survived largely because newspapers employed it as a disapproving description for the area, an image perpetuated in popular fiction by W. Townend (*Once to Tiger Bay* 1929), David Martin (*Tiger Bay* 1946) and James Morgan Walsh (*Once in Tiger Bay* 1947). Older members of the Society will remember that the media in the 1950s described the singer Shirley Bassey as 'The Girl from Tiger Bay'. Born in Bute Street in 1937, she actually grew up in Splott more than a mile away. The name attracted worldwide attention with the appearance of the film 'Tiger Bay' in 1959 starring John Mills, Hayley Mills and Horst Buchholz, based on the short story *Rodolphe et le Revolver* by Noel Calef. A film with an identical name, made in 1934 at Ealing studios, relates to a 'Tiger Bay' set in China. The name is remarkably resilient, reappearing in that of a local American Football team (1993-2000), a small hotel, a proposed housing development (cardiffwaterside.com), and the address of the Doctor Who Experience. Wikipedia uses both Porth Teigr and Bae Teigr – both unhistorical.



The name seems to be first recorded in Cardiff in 1885 when there were summary evictions of 'the fallen sisterhood' in Peel Street, Frederica Street, Nelson Street and 'the purlieus of Tiger Bay' (The Western Mail, 7 November 1885). The name was probably much older. In subsequent years there are numerous mentions in newspapers of illegal gambling, murders, prostitution, drunkenness, riots and domestic incidents. None of this is particularly surprising; Cardiff was the world's largest coal-exporting port in the period immediately before World War I and crime and disorder went hand-in-hand with merchant seamen and their irregular lives. Crime affected other parts of Cardiff, of course, though Tiger Bay was the name that caught the reader's eye. The Reverend W. Spurgeon, pastor of Wood Street Congregational Church, was especially shocked by the 'wholesale violation of the Sabbath', alcohol ('a deadly miasma'), and immorality – problems incidentally which he had also encountered in East Moors, Riverside and even Temperance Town ('If Christ came to Cardiff': Evening Express 28 May 1894).

The origin of the name has been disputed. Howard C. Jones claims (*Place-Names in Glamorgan* 9, 13; also Dennis Morgan, *The Illustrated History of Cardiff's Suburbs* 19-20) that it derives from a music-hall song composed by a popular singer Harry Moreton in the 1860s. Checks on music-hall websites have so far failed to identify the song but Moreton (died 1907) was a well-known amateur concert organiser and comical ('buffo') singer and may well have sung a song of this nature. Moreton was a paint manufacturer at the Docks though he lived near Victoria Park, Canton, at his death (Evening Express 5/02/1907). The name is unlikely to originate with a song, however, much less for the rough waters at the entrance to the bay (see Neil M. Sinclair, *The Tiger Bay Story* (1993), 2-3; www.tigerbay.co.uk/news/blog; www.porthteigr.com)

Collectively, it is undoubtedly a generic term for a disreputable area in which immorality was seen as a threatening and stealthy predator. The name was applied, for example, in the 19th century to a slum in the east end of London (Ed Fisher, 'Bluegate Fields' at www.victorianlondon.org). The name was certainly in use there before 1863 because a detective novel entitled *Life in the Haymarket and Tiger's Bay by night!* was published in that year by the Order for the Prevention of Vice. The name also appears in *The Pauper, The Thief and the Convict* by Thomas Archer (1865), applied to the area between Haymarket, Wapping

Edward Rees, 1904. Convicted for living off the earnings of a prostitute in Riverside

Manuel Romero, 1918. Fined for being ashore without permission

Ahmed Benahmed, 1916. Convicted of taking part in a riot in Tiger Bay with other Somalis against West Indians and West Africans

Photographs appear with permission of Glamorgan Archives

and Bethnal Green and was recalled as late as 1950 in a novel by Roland Vane (the pseudonym of E.L. McKeag) *Girl from Tiger Bay. A tale of London's "Harlem"*. Fisher suggests that the name may have been taken from Tiger Bay, Cardiff, but this is unlikely since London's Tiger Bay occurs earlier. Variations of the name occur elsewhere such as Tigers or Tiger's Bay, an area originally centred on Mackey Street in Belfast, later extended to include Collyer Street (itself once known as the Lions Den) and adjoining streets (tigers-bay.com/duncairn_community). The name apparently survives in informal use to describe a loyalist enclave centred on upper North Queen Street. The stereotyping of London's 'low-life' was at its most sensational in a book called *Della polizia in Inghilterra, in Francia e in Italia* by Augusto Aglebert (1868) for whom Tiger Bay in London was 'a humid and frightening Bengal, where men take the place of tigers'. The danger according to Archer lay with the presence of brothels rather than murderers and thieves but significantly he adds that the area was inhabited by a hybrid population where one could meet 'Lascars and Chinese' (see M. Ascari, *A Counter-History of Crime Fiction* (2007), 135-6). Racial, religious and social prejudice were recurrent themes in the Tiger Bays of Cardiff, London and Belfast.

None of this takes us much closer to the origin of the name but it was certainly a convenient label easily attached to a place, by novelists and journalists, whenever a fierce and pejorative name was required. It was a label which could also as easily be lost. No doubt other examples of the name once existed. What is remarkable is that the tiger in Cardiff's Tiger Bay is not yet extinct.

Richard Morgan

Nant

Byddaf yn derbyn yn gyson gopi o gylchlythyr Cymdeithas Gymreig Canberra yn Awstralia. Mae'n cynnwys o dro i dro sylwadau ar rai enwau Cymraeg sydd wedi llwyddo i wreiddio yn y wlad honno. Mewn un rhifyn sydd gen i, mae un o ohebwyr y cylchlythyr yn tynnu sylw at brofiad a gafodd pan fynychodd achlysur hyrwyddo wisgi yn Canberra. Dyna a wna gohebwyr a golygyddion o bryd i'w gilydd, bid siŵr. Mentrodd at stondin y Nant Distillery Company, Tasmania. Cofnododd y stori hon. Cafodd y ddistyllfa ei chodi ar dir a oedd yn eiddo i ymfudwr o Gymru o'r enw Edward Nicholas o'r Fenni ym Mynwy. Glaniodd ef a'i deulu a chriw o'i weithwyr yn Van Diemen's Land yn Awst 1821. Derbyniodd 1,800 o gyfeiri o dir a galw'r eiddo newydd yn 'Nant' ar ôl ei hen gartref yng Nghymru. Erbyn 1825 roedd melin i falu grawn wedi ei chodi er mwyn diwallu anghenion y stad. Codwyd melin arall yn 1857 a bu honno'n gweithio tan 1890. Erbyn heddiw mae'r felin wedi ei hadnewyddu a grym y dŵr sy'n gyrru peiriannau'r Nant Whisky Distillery yn Tasmania.

The Nant Whisky Distillery in Tasmania was named after the home of Edward Nicholas of Abergavenny. **David Thorne**